

## **Datblygu meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim dan y Credyd Cynhwysol - Crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft (RIA)**

### **Y broblem dan sylw a'r rhesymeg dros ymyrryd**

Mae prydau ysgol am ddim yn 'fudd pasbort' sy'n gysylltiedig â nifer o fudd-daliadau, megis Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) a Chredyd Treth Plant sy'n seiliedig ar incwm, sy'n cael eu disodli gan y Credyd Cynhwysol<sup>1</sup>. Mae'r meini prawf cymhwysedd presennol yn seiliedig yn bennaf ar dderbyn budd-daliadau di-waith. Fodd bynnag, mae gan y rhai sydd mewn gwaith ac sy'n hawlio Credyd Treth Plant (ond heb fod yn gweithio digon o oriau i hawlio Credyd Treth Gwaith) hawl i gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Ym mis Ionawr 2017 roedd tua 76,200 o ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru, sy'n cyfateb i 16 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir<sup>2</sup>.

Gan nad oes gwahaniaeth rhwng budd-daliadau di-waith ac mewn gwaith dan y Credyd Cynhwysol, byddai llawer o hawl wyr ychwanegol mewn gwaith ar incwm isel yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan faen prawf cyffredinol ar gyfer pawb sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol. Er bod maen prawf cyffredinol wedi'i gyflwyno fel mesur dros dro, nid yw hyn yn broblem ar hyn o bryd gan mai cymharol ychydig o deuluoedd yng Nghymru sydd wedi dechrau derbyn y Credyd Cynhwysol hyd yma. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid wrth i'r broses o'i gyflwyno fynd rhagddi.

Ystyrir mai pennu trothwy enillion net blynyddol<sup>3</sup> i deuluoedd ar y Credyd Cynhwysol yw'r ateb tecaf a symlaf. Bydd trothwy o'r fath yn sicrhau bod y rhieni mewn gwaith tlotaf yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ar hyn o bryd, mae yna deuluoedd incwm isel iawn (sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith) nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y nifer o oriau y maent yn gweithio. Bydd maen prawf seiliedig ar enillion yn datrys y broblem hon. Os na fyddwn yn pennu trothwy, byddwn yn creu costau na ellir eu anfforddiadwy.

Mae defnyddio trothwy incwm net a enillir yn gyson â'r dull a ddefnyddir gan adrannau eraill llywodraeth San Steffan a gweinyddiaethau datganoledig eraill wrth ddiweddarau meini prawf cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau pasbort o dan y Credyd Cynhwysol. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd yr Adran Addysg (DfE) drothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn i asesu cymhwysedd aelwydydd i gael

---

<sup>1</sup> Mae'r Credyd Cynhwysol yn disodli chwe budd-dal prawf modd presennol – Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

<sup>2</sup> Ffynhonnell: Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion (CYBLD). Mae disgyblion yn cael eu cofnodi fel rhai cymwys os ydynt wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'r awdurdod lleol ac (1) mae'r awdurdod perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn gymwys, neu (2) maent yn dal i ddisgwyl am gadarnhad terfynol o gymhwysedd ond mae'r ysgol wedi gweld dogfennau sy'n awgrymu'n gryf eu bod yn gymwys. Mae yna rai teuluoedd hefyd (heb eu cynnwys yn yr ystadegau hyn) a allai fod â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar y budd-daliadau y maent yn eu derbyn, ond nad ydynt wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'w hawdurdod lleol.

<sup>3</sup> Byddai incwm net o enillion cyflogaeth ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael ei ystyried. Diffinnir incwm net a enillir fel incwm aelwydydd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw yn cynnwys incwm o o'r Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill.

prydau ysgol am ddim o dan y Credyd Cynhwysol yn Lloegr<sup>4</sup>. Yn yr un modd, ar gyfer cymhwysedd prydau ysgol am ddim yn yr Alban, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban drothwy enillion net o £610 y mis (sy'n cyfateb i £7,320 y flwyddyn) ym mis Awst 2017<sup>5</sup>.

## Amcanion polisi

Amcanion y polisi yw adolygu meini prawf cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, gan sicrhau'r canlynol:

- mae'r rhai mwyaf anghenus yn gallu cael gafael ar brydau ysgol am ddim, gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd ac addysgol;
- fforddiadwyedd prydau ysgol am ddim i awdurdodau lleol;
- fforddiadwyedd unrhyw feichiau ariannol cysylltiedig newydd i Lywodraeth Cymru a allai godi.

## Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys y status-quo)

Mae tri dewis polisi wedi'u hystyried:

Opsiwn A: "Gwneud dim" h.y. cynnal y status quo. Byddai hyn yn golygu y byddai'r meini prawf cymhwysedd cyffredinol i gael prydau ysgol am ddim yn parhau ar gyfer yr holl hawlwr y Credyd Cynhwysol.

Opsiwn B: Cyflwyno trothwy enillion net blynyddol o £6,200<sup>6</sup>.

Opsiwn C (dewis a ffefrir): Cyflwyno trothwy enillion net blynyddol n o £7,400<sup>7</sup>.

Pe bai trothwy enillion yn cael ei gyflwyno (h.y. opsiwn B neu C), byddai hyn yn dod i rym ym mis Ionawr 2019. Ein bwriad fyddai cadw'r trothwy'n gyson (h.y. yn sefydlog yn nhermau arian parod) tan ddiwedd cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (h.y. ar hyn o bryd disgwylir mai diwedd Mawrth 2022 fydd hynny, ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd wedi ei chyhoeddi). Fodd bynnag, byddai'r trothwy'n cael ei adolygu'n gyson.

O ran asesu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer y rhai ar y Credyd Cynhwysol, byddai incwm net o enillion cyflogeion ac enillion hunangyflogaeth datganedig<sup>8</sup> yn cael eu hystyried<sup>9</sup>. Diffinnir incwm a enillir net fel incwm aelwydydd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw'n cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill. Byddai'r un trothwy'n berthnasol i deuluoedd un oedolyn a dau

---

<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/eligibility-for-free-school-meals-and-the-early-years-pupil-premium-under-universal-credit>

<sup>5</sup> <http://www.gov.scot/Topics/Education/Schools/HLivi/schoolmeals/FreeSchoolMeals>

<sup>6</sup> £516.67 y mis.

<sup>7</sup> £616.67 y mis.

<sup>8</sup> Ar gyfer y rhieni hynny sy'n hunangyflogedig, bydd cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei asesu ar enillion datganedig. Bydd angen i rieni gwblhau ffurflen datganiad cymhwysedd hunangyflogaeth i ddarparu'r dystiolaeth ategol angenrheidiol.

<sup>9</sup> Byddai hyn yn cael ei asesu gan ddefnyddio gwybodaeth enillion o hyd at dri o gyfnodau asesu Credyd Cynhwysol mwyaf diweddar yr hawliwr. Mae hyn yn cydnabod y gall enillion rhai hawlwr amrywio o fis i fis.

oedolyn. At ddiben y polisi hwn, diffinnir aelwyd/teulu fel “un neu ddau oedolyn (yn byw gyda’i gilydd fel cwpl) ynghyd â phlant dibynnol maen nhw’n byw gyda nhw”.

### **Costau a manteision pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)**

Rydym wedi gwneud dadansoddiad i amcangyfrif effaith bosib y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer prydau ysgol am ddim ar nifer y plant cymwys a’r costau cysylltiedig. Mae ein dadansoddiad wedi defnyddio dau fodel a ddatblygwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), sef y model rhagolygon integredig (INFORM) a’r Model Efelychu Polisi (PSM).

Mae’r data a’r fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym yn debyg iawn i’r hyn a wnaethpwyd gan y DfE i lywio datblygiad meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai addasiadau er mwyn cael amcangyfrifon priodol ar gyfer Cymru.

Fel yr amlinellir mewn nodyn methodoleg gan y DfE<sup>10</sup>, mae INFORM yn fodel micro-efelychu dynamig sy’n cynhyrchu amcangyfrifon o lifoedd misol ar draws a rhwng budd-daliadau etifeddol a’r Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn darparu amcangyfrifon o nifer y plant mewn cartrefi sy’n symud i’r Credyd Cynhwysol, wedi’i rannu gan y math o fudd-dal etifeddol cyfatebol ar y system etifeddol.

Mae’r PSM yn fodel micro-efelychu sefydlog sy’n cyfrifo effeithiau polisiâu treth a budd-daliadau ar hapsampl o gartrefi o’r Arolwg o Adnoddau Teulu 2015-16. Caiff y blynyddoedd i ddod eu modelu trwy efelychu polisiâu a gyhoeddwyd sy’n gyson â thwf mewn rhagolygon economaidd perthnasol. Defnyddir y model hwn i amcangyfrif enillion ac oedran plant yn yr aelwydydd hynny sy’n symud i’r Credyd Cynhwysol, ac i gyfrifo a fyddant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ôl y cyfnod pontio ai peidio. Mae’n dweud wrthym hefyd a fyddent wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pe na baent wedi symud i’r Credyd Cynhwysol. Rydym wedi defnyddio data cyfrifiad ysgol ar gyfer Cymru, a Lloegr hefyd, i helpu i lywio amcangyfrifon ar lefel Cymru.

Mae ein dadansoddiad yn ystyried cyfraddau hawlio prydau ysgol am ddim o ystyried na fydd pob cartref sydd â hawl i’w cael yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ddata Credyd Treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem) a data cyfrifiad ysgolion.

Y prif fath o gost a wynebwr gan ysgolion er mwyn cynnig prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yw’r gost sy’n gysylltiedig â darparu pob pryd ychwanegol<sup>11</sup>. Gallai hyn gynnwys cost cynhwysion a staff cegin i ysgolion â’u ceginau eu hunain sy’n cynhyrchu eu prydau eu hunain, neu’r swm a godir gan ddarparwr prydau lleol i brynu pryd ychwanegol. Mae costau o’r fath yn cael eu talu gan gyllid craidd gan yr

<sup>10</sup> <https://publications.parliament.uk/pa/ld201719/ldselect/ldsecleg/82/8206.htm>;  
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/707466/Additional\\_free\\_school\\_meal\\_pupils\\_under\\_Universal\\_Credit.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/707466/Additional_free_school_meal_pupils_under_Universal_Credit.pdf)

<sup>11</sup> Efallai y bydd costau cyfalaf ymlaen llaw o ganlyniad i brynu offer newydd a/neu gyflogi staff ychwanegol, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw’r costau hyn wedi cael eu hystyried, yn bennaf oherwydd nad oes disgwyl i ddau o’r tri opsiwn a ystyriwyd (gan gynnwys yr opsiwn a ffeirir) gynyddu’r cohort cinio ysgol am ddim yn sylweddol.

awdurdod lleol, ac amcangyfrifir eu bod oddeutu £25 miliwn yn 2016/17<sup>12</sup>. Gan mai awdurdodau lleol sy'n talu cost prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd, gan gynnwys trwy gyllid a ddarperir trwy'r Setliad Llywodraeth Leol, awdurdodau lleol fyddai'n wynebu unrhyw gostau/arbedion uniongyrchol ychwanegol o gynnydd/gostyngiad yng nghohort a chyllideb prydau ysgol am ddim. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried darparu cymorth ariannol i dalu am effaith y trothwy a ddewisir a'r cynnig amddiffyniad trosiannol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i reoli'r gwaith o ddsbarthu'r cymorth ariannol hwn, yn arbennig drwy'r Is-grŵp Dosbarthu<sup>13</sup> sy'n cynghori ar fformiwla'r Setliad Llywodraeth Leol (trafodir effeithiau ehangach eraill isod).

Bydd newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn gofyn am newidiadau i'r System Gwirio Cymhwysedd (ECS), a reolir gan y DfE. Mae Llywodraeth Cymru'n talu i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio'r system hon i'w galluogi i wirio cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar-lein. Nid yw'r gost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud y newidiadau i'r system hon yn sicr ar hyn o bryd (ac mae wedi'i heithrio o'r ffigurau isod), ond disgwylir iddi fod yn gymharol fach.

Er bod gan ein dadansoddiad gyfyngiadau (fel yr eglurir ymhellach yn yr adran ar risgiau), mae'n seiliedig ar y modelau a'r data gorau sydd ar gael. Mae crynodeb o ganfyddiadau allweddol ein dadansoddiad isod.

**Opsiwn A:** Mae ein dadansoddiad yn awgrymu pe na bai unrhyw drothwy enillion yn cael ei roi ar waith erbyn adeg cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn, byddai'r llwyth achosion prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn treblu. Byddai hyn yn golygu y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu â 16 y cant ym mis Ionawr 2017), na fyddai'n fforddiadwy.

**Opsiwn B:** Amcangyfrifir y bydd trothwy enillion net blynyddol o £6,200 yn niwtral yn fras o safbwynt cohort (a chost) yn niwtral pan fydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n llawn.

**Opsiwn C (dewis a ffefrir):** Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd trothwy enillion net blynyddol o £7,400 y bydd tua 3,000 yn fwy o blant yn elwa ar brydau ysgol am ddim yng Nghymru erbyn yr amser y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn. Mae hyn yn cynrychioli'r newid net amcangyfrifedig ym maint y cohort oherwydd y meini prawf cymhwysedd newydd arfaethedig. Mae'n gymharol â'r nifer amcangyfrifedig o blant a fyddai wedi derbyn prydau ysgol am ddim o dan y system fudd-daliadau y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei disodli. Mae llawer o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn oherwydd ffactorau fel newid ymddygiad, er enghraifft. Yn ogystal, bydd y rhagolygon economaidd (e.e. rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol rhagolygon Cyfrifoldeb ar gyfer twf enillion a chyfraddau cyflogaeth) a'r

---

<sup>12</sup> Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar nifer y plant y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru sy'n manteisio ar eu hawl (ffynhonnell: data cyfrifiad ysgolion 2016/17) a chyfraddau cyllido'r DfE o £2.41 fesul disgybl ysgol uwchradd fesul pryd a £2.30 fesul disgybl ysgol gynradd fesul pryd. (Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/guidance/16-to-19-funding-free-meals-in-further-education-funded-institutions> ; <https://www.gov.uk/guidance/universal-infant-free-school-meals-guide-for-schools-and-local-authorities>).

<sup>13</sup> Is-grŵp Dosbarthu: <http://llyw.cymru/topics/localgovernment/finandfunding/dsg1/?lang=cy>

data sylfaenol (e.e. amcanestyniadau llwyth achosion Credyd Cynhwysol a'r Arolwg o Adnoddau Teulu) a ddefnyddir yn y modelau ar gyfer y dadansoddiad hwn yn parhau i gael eu diweddarau. Bydd data a rhagolygon newydd yn cael effaith ar ein hamcangyfrifon o effaith bosib meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Felly, gallai ein hamcangyfrifon newid.

Er bod ein dadansoddiad yn awgrymu na fyddai mwyafrif y plant yn gweld unrhyw newid yn eu hawl i gael prydau ysgol am ddim o dan y dewis a ffefrir gennym, byddai yna rai plant a fyddai'n colli'r hawl (pe na bai amddiffyniad trosiannol yn cael ei ddarparu). Disgwylir y byddai'r mwyafrif o'r rhain yn deuluoedd dau oedolyn. Fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif y byddai mwy o blant yn ennill yr hawl (byddai disgwyl i'r rhan fwyaf ohonynt fod mewn teuluoedd unig riant). Ar ben hynny, gan ein bod yn cynnig rhoi cynnig amddiffyniad trosiannol ar waith, byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (a thu hwnt i hynny i rai plant).

Mae amddiffyniad trosiannol yn ymwneud â mesurau sy'n sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau newid polisi am gyfnod cyfyngedig o amser wrth symud i drefniadau newydd. Byddai'r amddiffyniad yn darparu cyfnod addasu ar gyfer teuluoedd yr effeithir arnynt.

Rydym yn cynnig amddiffyniad trosiannol a fyddai'n golygu y byddai'r disgyblion canlynol<sup>14</sup> yn cael eu hamddiffyn rhag colli eu prydau ysgol am ddim:

- O 1 Ionawr 2019 ymlaen, byddai'r holl hawl wyr cinio ysgol am ddim presennol yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tra byddai'r Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno (disgwylir i hynny fod tan 2022 ar hyn o bryd). Byddai hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r cyfnod meini prawf cymhwysedd mwyach (e.e. os yw eu henillion yn codi uwchlaw'r trothwy newydd) yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod hwn.
- Byddai unrhyw ddisgybl a fyddai'n dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ôl 1 Ionawr 2019 yn cael eu hamddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn wir hyd yn oed pe na byddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach yn nes ymlaen yn ystod y cyfnod cyflwyno.
- Yn dilyn cwblhau'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, bydd unrhyw ddisgybl presennol nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar y pwynt hwnnw mwyach (e.e. os yw'r rhiant (rhieni) yn ennill mwy na'r trothwy, neu nad ydynt yn gymwys mwyach i gael y Credyd Cynhwysol) yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tan ddiwedd y cyfnod cyfredol o addysg eu plentyn (h.y. cynradd neu uwchradd).

---

<sup>14</sup> Nid yw'r ffigur: 3,000, ar dudalen 4, yn cynnwys plant sy'n cadw prydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r mesurau amddiffyniad trosiannol a gynigir. Rydym yn amcangyfrif y byddai cyfanswm y plant sy'n derbyn amddiffyniad trosiannol mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cyffredinol, oddeutu 20,000 - 30,000. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrif hwn yn ansicr a gall newid.

Yn gyfan, amcangyfrifir fod costau'r prydau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trothwy of £7,400 a'r mesurau amddiffyniad trosiannol arfaethedig oddeutu £10 miliwn y flwyddyn rhwng 2019-20 a 2022-23.

Amcangyfrifir bod y cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim oddeutu £400 y flwyddyn fesul plentyn<sup>15</sup>. Mae hyn yn rhoi syniad o'r graddau y mae rhieni yn elwa o brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, gall y swm a gaiff ei wario ar fwyd ar gyfer cinio ysgol gan deuluoedd fod yn uwch na hyn mewn gwirionedd<sup>16</sup>. O ystyried y cysylltiadau rhwng bod yn llwglyd yn yr ystafell ddosbarth, prydau ysgol am ddim, iechyd, ymddygiad a chyrhaeddiad addysgol<sup>17</sup>, efallai bod yna effeithiau dilynol ehangach yn y meysydd hyn hefyd.

## Risgiau

Mae'n anodd iawn rhagweld yn gywir beth fydd effaith trothwy enillion ar faint y cohort prydau ysgol am ddim. Rydym yn targedu'r grŵp o aelwydydd y mae'r diwygiadau'n effeithio fwyaf arnynt, gan gynnwys newidiadau i gymhellion gwaith o dan y Credyd Cynhwysol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Ni allwn ragweld ymddygiad unigolion wrth iddynt symud i'r Credyd Cynhwysol a gallai'r trothwy enillion net newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim gael effaith ar ymddygiad pobl hefyd. Mae ein hamcangyfrifon yn sensitif hefyd i newidiadau yn y data sylfaenol a'r rhagolygon economaidd sy'n sail i'n dadansoddiad.

Mae yna risgiau pe baem yn pennu trothwy rhy isel, gallem leihau maint y cohort prydau ysgol am ddim, sy'n mynd yn erbyn y nod polisi. Ar y llaw arall, pe baem yn pennu trothwy rhy uchel, gallem gynyddu'r cohort yn ormod, a byddai gan hynny oblygiadau ariannol ar gyfer y gyllideb prydau ysgol am ddim. Byddai yna effeithiau dilynol ehangach hefyd ar Grant Datblygu Disgyblion (PDG), er enghraifft (fel yr amlinellir yn yr adran nesaf).

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, byddwn yn monitro effaith y meini prawf cymhwysedd newydd yn ofalus ar nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Effeithiau ehangach

Mae'r PDG, sy'n darparu cyllid i ysgolion, yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd cynnydd ym maint y cohort yn cynyddu costau PDG. Mae'r mecanwaith ariannu ar gyfer dyrannu'r PDG yn 2018-19 a 2019-20 yn seiliedig ar ddyraniad dwy flynedd. Rhan o'r rhesymeg dros bennu cyfradd benodol ar gyfer y dyraniadau am ddwy flynedd yw'r ansicrwydd presennol sy'n ymwneud â'r Credyd Cynhwysol. Bydd pennu cyfradd benodol yn rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd i ysgolion ac yn caniatáu amser i ni ystyried effaith y meini prawf cymhwysedd newydd ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

---

<sup>15</sup> Yn seiliedig ar gyfraddau ariannu'r DfE ar gyfer prydau ysgol am ddim.

<sup>16</sup> Dywed erthygl gan Dearden, L. a Farquharson, C. (2017) bod rhai teuluoedd ag un plentyn yn gwario tua £70 ar fwyd bob wythnos <https://www.ifs.org.uk/publications/9202>.

<sup>17</sup> <https://www.ifs.org.uk/publications/9202>; [http://jandonline.org/article/S0002-8223\(05\)00151-3/fulltext](http://jandonline.org/article/S0002-8223(05)00151-3/fulltext) <http://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0047272714002497>; <http://www.nature.com/ejcn/journal/v64/n11/full/ejcn2010150a.html?foxtrotcallback=true>;

Rydym yn mesur cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn defnyddio hynny i'n helpu i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gau'r bwloch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sydd o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai nad ydynt o gefndiroedd o'r fath. Bydd newidiadau yn y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn effeithio ar ein gallu i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud i gau'r bwloch cyrhaeddiad. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyhoeddi data ar gyrhaeddiad disgyblion difreintiedig, ond yn cydnabod y bydd angen i ni ystyried y cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno.

Defnyddir data ar nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel rhan o gyfrifiad y Setliad Llywodraeth Leol. Felly, bydd newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael effaith ar ddsbarthiad fformiwla ariannu'r Setliad. Rydym yn ystyried trefniadau trosiannol i ganiatáu i awdurdodau reoli'r effaith ddsbarthu a byddwn yn cadw mewn cysylltiad â llywodraeth leol ynghylch hyn drwy'r Is-grŵp Dosbarthu.

Mae'r Grant Gwella Addysg (EIG) ar gyfer ysgolion yn faes arall lle y defnyddir data ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Defnyddir y data yn rhannol i benderfynu ar ddyraniadau Awdurdod Lleol/consortia. Pan fyddwn yn defnyddio'r data hwn, byddwn yn monitro pa effaith sydd gan unrhyw feini prawf cymhwysedd newydd ar y dyraniadau hyn.

Mae Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyd-fynd â'r crynodeb drafft hwn o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn darparu aseiad o effaith y cynigion ar gyfer meini prawf cymhwysedd newydd i gael prydau ysgol am ddim ar grwpiau cydraddoldeb amrywiol.

### **Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir gyda disgrifiad o'r cynllun gweithredu**

Opsiwn C (trothwy enillion net blynyddol o £7,400) yw'r opsiwn a ffefrir. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at gynnydd bach yn y cohort prydau ysgol am ddim unwaith y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn. Hwn yw'r dewis a ffefrir gennym yn hytrach na throthwy is o £6,200, yr amcangyfrif yn fras y byddai'n newid fawr ddim ar faint y cohort (ac felly o fudd i lai o blant na throthwy o £7,400). Fodd bynnag, ni fyddai peidio â chael trothwy yn fforddiadwy.

Byddai gan deulu nodweddiadol sy'n ennill oddeutu £7,400 y flwyddyn, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, gyfanswm incwm cartref o rhwng £18,000 a £24,000 unwaith y byddai budd-daliadau'n cael eu hystyried<sup>18</sup>. Felly, nid yw'r swm enillion net yn cynrychioli cyfanswm incwm aelwyd gan nad yw'n cynnwys incwm o fudd-daliadau, sy'n cynyddu incwm cyffredinol aelwyd yn sylweddol.

O dan yr opsiwn a ffefrir, rydym yn disgwyl na fyddai'r mwyafrif sylweddol o blant yn gweld unrhyw newid yn eu hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, byddai symud i drothwy enillion yn golygu y byddai rhai ar eu hennill (yn bennaf y rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith ar hyn o bryd sy'n gweithio gormod o oriau i fod â hawl i

<sup>18</sup> Ffynhonnell: DfE (2017) Eligibility for free school meals and the early years pupil premium under Universal Credit <https://www.gov.uk/government/consultations/eligibility-for-free-school-meals-and-the-early-years-pupil-premium-under-universal-credit>

brydau ysgol am ddim, ond sydd ar gyflog isel) ac eraill ar eu colled, yn bennaf y rheiny sy'n derbyn Credyd Treth Plant ar hyn o bryd ac sy'n ennill mwy na'r trothwy o £7,400 pan fyddant yn symud i'r Credyd Cynhwysol). Ar sail ein dadansoddiad rydym yn disgwyl y byddai mwyafrif y rhai fyddai ar eu hennill yn blant mewn teuluoedd unig riant, ac y byddai'r rhan fwyaf o'r rhai ar eu colled yn blant mewn teuluoedd dau oedolyn. Fel arfer, mae'r rhai sydd ar eu hennill yn gweithio oriau hirach, ond mae ganddynt enillion is yr awr na'r rhai sydd ar eu colled. Fodd bynnag, gan ein bod yn bwriadu cynnig amddiffyniad trosiannol ochr yn ochr â throthwy enillion net blynyddol o £7,400, byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli ei hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (a thu hwnt i hynny i rai plant).

Y bwriad yw cyflwyno'r meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim ledled Cymru ym mis Ionawr 2019. Caiff hyn ei adolygu'n ofalus o ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r effaith a amcangyfrifir ar y cohort a'r gyllideb prydau ysgol am ddim.

### **Adolygiad ar ôl gweithredu**

O ystyried yr anhawster wrth ragweld yn gywir beth fydd effaith trothwy enillion ar faint y cohort cinio ysgol am ddim, byddwn yn monitro effaith y trothwy'n ofalus ar nifer y plant y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n manteisio ar eu hawl, yn ogystal â'r effeithiau cysylltiedig ar y gyllideb ac unrhyw effeithiau dilynol ehangach. Bydd data cyfrifiad ysgolion yn cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi syniad o effeithiau o'r fath, yn ogystal â data ychwanegol a gesglir ac a dadansoddir yn ôl yr angen.